

Yr Ysgol Mathemateg

Myfyrwyr Israddedig
Rhaglenni Gradd 2025



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Mae ein henw da
a'n gweledigaeth
ryngwladol yn
denu dros 200 o
fyfyrwyr israddedig
o bedwar ban byd
bob blwyddyn.

Wedi'i achredu
gan y Sefydliad
Mathemateg a'i
Chymwysiadau
(IMA).

Croeso

Rydyn ni wrth ein bodd cael gwybod eich bod chi'n ystyried Caerdydd ar gyfer eich antur nesaf ym myd mathemateg.



Darganfod rhagor

Yn Ysgol Mathemateg Caerdydd, byddwch chi'n ymwneud â rhai o fathemategwyr gorau'r wlad, â chymuned ymchwil flaengar a bydd gennych chi amrywiaeth enfawr o gyrsiau i ddewis ohonyn nhw.

Nawr, dychmygwch eich hun yn ein hadeilad modern, Abacws. Gyda lleoedd sy'n berffaith ar gyfer gwaith tîm ac arloesi, rydyn ni'n angerddol ynghylch dysgu ymarferol a dod â mathemateg yn fyw.

Beth am ein myfyrwyr? Maen nhw wrth eu bodd gyda'r llwybr dysgu anhygoel maen nhw'n cychwyn arno yma yng Nghaerdydd. A dweud y gwir, mae cyfraddau boddhad ein myfyrwyr wedi bod yn cynyddu, gyda BSc Mathemateg Ariannol yn dangos boddhad o 100% yn 2023. Mae ein hacademyddion yn arwyr ym maes mathemateg, sy'n gwthio ffiniau'r hyn sy'n bosibl ym myd rhifau, fformiwlâu a chymwysiadau. Maen nhw i gyd yn gwneud mathemateg yn berthnasol ond hefyd yn rhan chwyldroadol o'r byd modern.

Eich gradd israddedig fydd un o'r camau cyntaf tuag at eich gyrfa yn y dyfodol. Mae amrywiaeth eang o fodiwlau i chi gael dewis o'u plith. Gallwch chi eu teilwra i gwrdd a'ch diddordebau a'ch nodau o ran gyrfa, ac mae gennyn ni amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau cymorth i'ch helpu ar hyd y ffordd. Gallwch chi hefyd fynd ar leoliad mathemategol neu gael blwyddyn dramor gydag un o'n sefydliadau partner - mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd.

Felly, ar ran tîm cyfan yr Ysgol Fathemateg, nid dymuno llwyddiant i chi yn unig rydyn ni am ei wneud - rydyn ni'n paratoi at gael antur fathemategol gyda chi. Oes gennych chi gwestiynau? Cysylltwch unrhyw bryd. Rydyn ni yma i wireddu eich breuddwydion mathemategol.

Dr Jonathan Thompson
Pennaeth yr Ysgol



Mae ein gwaith
addysgu yn seiliedig
ar ymchwil arloesol ac
anghenion technoleg
fodern.

Un o'r rhaglenni
datblygiad
proffesiynol gorau ar
gyfer israddedigion
yn y DU.

Ynglŷn â'n hysgol

Ein dulliau addysgu

Mae staff yn yr Ysgol Mathemateg wedi ymrwymo i addysgu wyneb yn wyneb o ansawdd uchel. Rydyn ni'n cefnogi ein myfyrwyr i gyflawni eu llawn potensial yn ystod eu cynlluniau gradd a thrwy eu paratoi am ddyfodol cyffrous.

Mae ein rhaglenni yn gyffrous yn ddeallusol ac yn hyblyg, ac maen nhw'n eich galluogi chi i ddilyn eich diddordebau mathemategol wrth i chi ddatblygu eich sgiliau proffesiynol a mathemategol.

Ein hymchwil

Rydym yn Brifysgol Grŵp Russell sy'n ymrwymo i gynnal yr ymchwil orau oll, profiad addysgu a dysgu rhagorol, a chysylltiadau cryf gyda diwydiant.

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, dyfarnwyd bod yr ymchwil yn Ysgol Mathemateg Caerdydd yn rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y byd.



Cymerwch olwg ar adeilad Abacws a'r cyfleusterau

Ein cyfleusterau


Mae Abacws yn adeilad a gynlluniwyd ar y cyd â myfyrwyr a darlithwyr i greu mannau gwaith rhyngddisgyblaethol, hyblyg a chreadigol, gyda mannau addysgu ac arferion arloesol ar gyfer yr Ysgol Mathemateg.

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys:

- Ystafelloedd seminar a darlithfeydd hyblyg â chynllun arloesol er mwyn annog rhyngweithio
- Mannau pwrpasol i fyfyrwyr wneud gwaith prosiect
- Labordai cyfrifiadurol ar gyfer gwaith grŵp, dosbarthiadau, a lle i astudio ar eich pen eich hun
- Mannau y gall ein partneriaid yn y diwydiant eu defnyddio i gynnig cyfleoedd ymgysylltu rhagorol i'n myfyrwyr
- Ystafell Fasnachu efelychiadol newydd at ddibenion mathemateg ariannol

Ein lleoliad

Mae'r Ysgol Mathemateg yn adeilad Abacws, mewn safle canolog ar gampws y Brifysgol, a llai na phum munud ar droed o brif ardal siopa'r ddinas a Chanolfan Ddinesig Caerdydd.





Eich llwybr dysgu



Mathau o raglenni gradd

Rhaglen BSc

Gradd mewn mathemateg dros gyfnod o dair blynedd.

Rhaglen blwyddyn mewn diwydiant

Mae blwyddyn ar leoliad proffesiynol yn ymestyn y rhaglen BSc tair blynedd i fod yn rhaglen pedair blynedd, a'r rhaglenni gradd MMath ac MMORS pedair blynedd yn rhai pum mlynedd.

Rhaglenni MMath a MMORS

Dyma raglenni arbenigol sy'n cynnig gwybodaeth ddyfnach a mwy o gyfle i wneud gwaith ymchwil o gymharu â'r radd BSc. Cwblheir y rhaglenni hyn dros bedair blynedd.

Rhaglen blwyddyn dramor

Mae blwyddyn dramor yn ymestyn y rhaglen BSc tair blynedd i fod yn rhaglen pedair blynedd, a'r rhaglenni gradd MMath ac MMORS pedair blynedd yn rhai pum mlynedd.

Gradd gydanrhydedd mewn mathemateg a cherddoriaeth

Gyda rhaglen gydanrhydedd, wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng dwy ysgol, byddwch chi'n astudio cerddoriaeth a mathemateg. Mae'r rhaglen hon yn rhedeg dros dair blynedd.

Blwyddyn ar leoliad proffesiynol

Mynnwch gyfle i ddatblygu eich sgiliau cyflogadwyedd drwy gwblhau blwyddyn yn gweithio mewn diwydiant.

Mewn marchnad swyddi gystadleuol i raddedigion, gall lleoliad gwaith eich helpu chi i ennill sgiliau a phrofiad ychwanegol a fydd yn sicrhau eich bod chi'n rhagori ar ymgeiswyr eraill.

Mae gennyn ni gysylltiadau â thros 300 o sefydliadau a gallwn ni gynnig y cyfle i chi dreulio cyfnod ar leoliad ledled y byd. Mae ein myfyrwyr wedi cwblhau lleoliadau cyffrous mewn sefydliadau fel:

- Cyllid a Thollau EM (Llundain)
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn (Warminster)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Casnewydd)
- Llywodraeth Cymru (Caerdydd)
- Barclaycard (Northampton)
- Grŵp Bancio Lloyds (Caerdydd, Bryste a Llundain)
- PwC (lleoliadau amrywiol)
- BAE Systems (Bryste)
- Corus (Casnewydd)
- GSK (Greenford a Harlow)
- Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol Cyf (Southampton)
- Roche Pharmaceuticals (Welwyn Garden City)
- Rolls Royce (Derby)

Fel arfer, bydd eich lleoliad yn para rhwng 10 a 12 mis ac yn cael ei gynnal rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich cwrs gradd.

Mae gan ein hysgol swyddog lleoliadau pwrpasol fydd yn eich helpu i ganfod cyfleoedd lleoliad gwaith addas. Byddan nhw hefyd yn eich paratoi chi ar gyfer y gweithle drwy gyfres o weithdai datblygu personol yn ystod eich ail flwyddyn.

Ymgollwch mewn diwylliant ac iaith arall ar flwyddyn dramor.

Rhaglen blwyddyn dramor

Mae ein partneriaethau niferus gyda'r prifysgolion gorau yn golygu y gallwch chi astudio yn rhai o'r dinasoedd mwyaf eiconig ac ysbrydoledig yn y byd. Ymhlith y cyrchfannau posibl mae Paris, Berlin, Milan a Barcelona, yn ogystal â phrifysgolion ymhellach i ffwrdd yn yr Unol Daleithiau, Awstralia, Canada a Hong Kong.

Bydd eich lleoliad yn para un flwyddyn academiaidd (bydd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y lleoliad o'ch dewis) ac yn cael ei gynnal rhwng ail a thrydedd flwyddyn eich gradd. Does dim angen i chi ymrwmo i fynd i brifysgol dramor tan ddechrau eich ail flwyddyn, felly mae digon o amser i newid eich meddwl os nad ydych chi'n barod i ymrwmo eto.

Mae'r Tim Cyfleoedd Byd-eang yn adnodd pwrpasol ac yn ffynhonnell o arbenigedd am yr holl gyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd. Maen nhw'n gallu eich cefnogi chi wrth wneud cais os ydych chi'n ystyried treulio cyfnod dramor yn astudio, gweithio neu wirfoddoli, ac maen nhw'n cynnig ystod o gyfleoedd rhyngwladol.



Darganfod rhagor



Rwy' newydd ddychwelyd o leoliad fel bioystadegydd mewn cwmni fferyllol.

Wrth ddod o hyd i leoliad, anfonodd y tîm gyrfaoedd restrau o leoliadau posibl, a chynnig llawer o help gyda threfnu CVs ac ymarfer ar gyfer cyfweiliadau. Roeddwn i wrth fy modd â'r lleoliad yn syth, ac rwy' bellach wedi dod o hyd i lwybr gyrfa.

Osý Dallimore, Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegath (BSc)



Roeddwn i'n hoff iawn o'r rhyddid y ces i ar y cwrs, ac mae cyfleoedd gwych ar gael i astudio a gweithio dramor.

Fy mhrofiad gorau oedd byw a gweithio yn Ffrainc a'r Swistir, gan gynnwys 6 mis yn gweithio yn CERN. Ro'n i'n seiclo i'r gwaith bob dydd ac yn gweld Mont Blanc – dyna beth oedd profiad anhygoel.

Rhys Ward, Mathemateg (BSc)



Ein rhaglenni gradd

Mathemateg

Mathemateg (BSc)

Hyd: 3 blynedd
Côd UCAS: G100

Mathemateg gyda Blwyddyn Dramor (BSc)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: G103

Mathemateg gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: G105

Mathemateg (MMath)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: G101

Mathemateg gyda Blwyddyn Dramor (MMath)


Hyd: 5 blynedd
Côd UCAS: G104

Mathemateg gyda Lleoliad Proffesiynol (MMath)

Hyd: 5 blynedd
Côd UCAS: G112

Mae gradd Mathemateg o Brifysgol Caerdydd yn rhoi sgiliau mathemategol craidd i chi, fydd yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd, ac yn sail cryf i chi gael ymgymryd ag astudio pellach.

Mae'r cwrs tair blynedd hwn yn cynnig cefndir eang mewn mathemateg gymhwysol, ystadegaeth, cyfrifiadura ac ymchwil weithredol. Wrth i chi fynd eich blaen drwy'r cwrs, byddwch chi'n dod i feddu ar annibyniaeth academaidd, gan symud o ddysgu mewn grwpiau bach yn eich blwyddyn gyntaf, i brosiect annibynnol dewisol yn eich blwyddyn olaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gennych chi'r dewis o newid cyrsiau ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf, felly cewch gadw meddwl agored wrth wneud cais. Bydd gennych chi gyfle hefyd i ddilyn blwyddyn ar leoliad proffesiynol neu flwyddyn dramor ar ôl eich ail flwyddyn.



Mae'r cwrs gradd MMath, sy'n bedair blynedd o hyd, yn rhannu'r un sylfaen â gradd BSc mewn Mathemateg ond yn eich galluogi i archwilio'r meysydd sydd o ddiddordeb i chi yn fanylach, drwy fodiwlau opsiynol, modiwlau arbenigol ym mlwyddyn pedwar a thrwy brosiect ymchwil sylweddol. Mae'r cwrs hwn yn ddefnyddiol os am gychwyn gyrfa mewn proffesiwn perthnasol ar lefel uchel, ac mae hefyd yn cynnig sylfaen gref i ddilyn gyrfa ym maes ymchwil. Ym mlwyddyn pedwar, byddwch chi'n cwblhau darn sylweddol o waith prosiect a allai gynnwys:

- Arolwg o faes theori fathemategol sy'n bodoli eisoes nad yw'n cael ei gynnwys mewn modiwlau a addysgir
- Prosiect ymchwil rhagarweiniol
- Datblygu darn o feddalwedd mathemategol

Byddwch chi'n archwilio pwnc ymchwil o'ch dewis ac yn datblygu'r sgiliau proffesiynol y mae cyflogwyr graddedigion yn chwilio amdany'n nhw. Byddwch chi hefyd yn dangos eich bod chi ar flaen y ddisgyblaeth, drwy gwmpasu pynciau ym mhrif feysydd ymchwil yr Ysgol, fel dadansoddi mathemategol, ffiseg fathemategol a dymeg hylifol.

Mae'r wybodaeth fwyaf cyfredol ar fodiwlau ar gael ar ein gwefan: www.caerdydd.ac.uk/courses



Barn un o'n myfyrwyr

Bydd y cwrs hwn yn cynnig sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer gyrfaedd yn y dyfodol

Rwy'n astudio gradd meistr integredig mewn mathemateg. Dewisais wneud gradd mewn mathemateg, yn bennaf gan fod gen i angerdd am y pwnc ac roeddwn i'n tybio y byddwn i'n ei fwynhau yn y brifysgol. Cyn gwneud cais i fynd i'r brifysgol, roeddwn i hefyd yn ansicr ynghylch beth roeddwn i eisïau ei wneud ar ôl graddio, felly roeddwn i'n hoff o'r ffaith y byddai mathemateg yn cynnig sgiliau trosglwyddadwy a hyblygrwydd ar gyfer fy llwybr gyrfa yn y dyfodol.

Rwy' wedi derbyn cefnogaeth gan lawer o wasanaethau'r Ysgol Mathemateg

Mae'r llyfrgelloedd wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod tymor yr arholiadau, gan gynnig amgylchedd astudio tawel, hyfryd a mynediad i ddeunyddiau cwrs perthnasol. Adeilad newydd Abacws yw ein hoff le i gael astudio'n unigol a chydweithio. Yn ogystal â hyn, mae labordei cyfrifiadurol yr adeilad wedi bod yn ddefnyddiol wrth imi gwblhau aseiniadau sy'n canolbwyntio ar raglennu.

Drwy gydol fy nhair blynedd yng Nghaerdydd, mae'r gwasanaeth gyrfaedd wedi cynnig cymorth sylweddol imi.

Maen nhw wedi fy helpu i gyda gwahanol bethau, gan gynnwys adolygu fy CV, cynnal ffug gyfweiliadau, a chynnig gwybodaeth werthfawr ar fy llwybr gyrfa. Ces i wybod am gyfleoedd gan y gwasanaeth gyrfaedd mathemateg pan roeddwn i'n fyfyrwr, gan arwain interniaethau a phrofiadau gwaith na fyddwn i efallai wedi dod o hyd iddyn nhw fel arall.

Y gair pwysicaf o gyngor sydd gen i yw gwnewch y gorau o'r holl gyfleoedd sydd ar gael

Gwnewch ddefnydd da o'r holl gymorth a chyfleoedd sydd ar gael i chi tra byddwch chi ym Mhrifysgol Caerdydd, yn enwedig yn yr adran fathemateg. Bydd hyn yn eich helpu chi i wneud yn dda yn eich astudiaethau, cwrdd â phobl, a chael amser gwych yn y brifysgol!



Aurora Birkeland, Mathemateg (MMath)



Mathemateg Ariannol

Mathemateg Ariannol (BSc)

Hyd: 3 blynedd
Cód UCAS: 15R4

Mathemateg Ariannol gyda Blwyddyn Dramor (BSc)

Hyd: 4 blynedd
Cód UCAS: 15R5

Mathemateg Ariannol gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc)

Hyd: 4 blynedd
Cód UCAS: 15R6

Diben y cwrs hwn yw cynnig y sgiliau mathemategol craidd angenrheidiol er mwyn dilyn gyrfa ym maes arian, bancio ac yswiriant.

I reoli'r sector ariannol cymhleth, mae angen mathemategwyr dawnus sy'n rhugl yn iaith arian ar fanciau a sefydliadau ariannol.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylfaen gref i chi mewn theori a thechnegau mathemategol cyffredinol, a byddwch chi'n datblygu gwybodaeth a sgiliau hanfodol ar gyfer swyddi yn y diwydiant ariannol ar yr un pryd.

Byddwch chi'n meithrin dealltwriaeth o farchnadoedd, sefydliadau, buddsoddiadau a pholisïau ariannol modern, gan ganolbwyntio ar faterion a phynciau sy'n berthnasol ar gyfer ochr gyfrifiadurol a dylunio marchnadoedd cyllid cyfoes, gan gynnwys:

- Systemau cymhleth
- Masnachu (yn arbennig masnachu amledd uchel)
- Rheoli cronfeydd
- Dadansoddeg

Mae'r radd BSc mewn Mathemateg Ariannol hefyd yn cynnig sylfaen dda mewn theori a thechnegau mathemategol cyffredinol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gennych chi'r dewis o newid cyrsiau ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf, felly cewch gadw meddwl agored wrth wneud cais.

Bydd gennych chi gyfle hefyd i gwblhau blwyddyn ar leoliad proffesiynol neu flwyddyn dramor ar ôl eich ail flwyddyn.

Mae'r wybodaeth fwyaf cyfredol ar fodiwlau ar gael ar ein gwefan:

www.caerdydd.ac.uk/courses



Barn un o'n myfyrwyr

Mae gen i ddiddordeb mewn sut mae modd defnyddio mathemateg yn y byd go iawn

Dewisais i'r cwrs mewn mathemateg ariannol gan fy mod i wedi bod â diddordeb erioed mewn sut mae modd defnyddio mathemateg yn y byd go iawn, ac mae'r diwydiant arian yn enghraifft wych o hyn. Roeddwn i hefyd eisiau canolbwyntio ar faes penodol felly roedd y cwrs hwn yn berffaith ar fy nghyfer i. Yn ogystal, dewisais gwrs gyda blwyddyn ar leoliad i fagu profiad a'i gwneud hi'n haws dod o hyd i swydd ar ôl gorffen yn y brifysgol.

Rwy'n hoffi'r amrywiaeth sy'n dod gydag astudio mathemateg

Ar gwrs mathemateg, rydych chi'n dilyn cymaint o fodiwlau gwahanol, o fathemateg bur i ystadegaeth, mecaneg a chyllid, a hyd yn oed cyfuniadau o'r rhain. Mae hyn yn golygu nad ydych chi byth yn diflasu ac mae cymaint o ddewis ar gael i chi. Beth bynnag y byddwch chi'n ymddiddori ynddo neu am arbenigo ynddo, bydd dewis ar gael i chi. Ym Mhrifysgol Caerdydd, mae ystod eang o fodiwlau rhaglennu a chyfrifiadura i ddewis ohonyn nhw, sy'n ddefnyddiol iawn ar gyfer swyddi ac yn edrych yn wych ar CV.

Mae mathemateg ariannol yn wych oherwydd mae'n agor cymaint o ddrysau i'ch dyfodol

Wrth ddilyn gradd mewn mathemateg, gallwch chi ddysgu cymaint o sgiliau defnyddiol fel meddwl yn ddadansoddol, datrys problemau, codio a rhaglennu, meddwl yn feirniadol a llawer mwy. Mae cael gradd mathemateg pan fyddwch chi'n gadael y Prifysgol Caerdydd, yn enwedig gyda'r sgiliau a'r arbenigedd a restrir uchod, yn golygu y bydd gennych chi opsiynau diddiwedd. Yn amlwg, mae mathemateg yn gwrs heriol a bydd angen i chi weithio'n galed, ond mae'n hynod werthfawr yn y pen draw.

Cewch gwrdd â phobl sydd wedi defnyddio mathemateg i adeiladu eu gyrfaedd

Drwy gydol eich amser yn y brifysgol mae llawer o wahanol ddarlithoedd, seminarau, sgysiaau a ffeiriau gyrfaedd, i chi gael cwrdd â phobl sydd wedi defnyddio mathemateg i adeiladu eu gyrfaedd, ac fe gewch chi ysbrydoliaeth i weld beth sydd ar gael a darganfod beth sy'n addas i chi. Rwy' wedi bod i dri digwyddiad gyrfaedd gwahanol, a phob tro, mae cwmnïau gwahanol wedi bod yno, gan gynnwys banciau, cwmnïau manwerthu, ysgolion ac ysbytai. Bydd pob cwmni yn sôn am eu cynlluniau gwahanol i raddedigion a'r ffyrdd gorau i wneud cais. Yn ogystal â hyn, bydd y Brifysgol yn cynnig awgrymiadau a chynghor ar ysgrifennu CV a'ch paratoi ar gyfer cyfweiliadau.



Lauren Oakes, Mathemateg Ariannol (BSc)



Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth

Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth (BSc)

Hyd: 3 blynedd
Côd UCAS: G991

Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth gyda Blwyddyn Dramor (BSc)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: GG23

Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth gyda Lleoliad Proffesiynol (BSc)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: G990

Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth (MMORS)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: 252D

Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth gyda Blwyddyn Dramor (MMORS)

Hyd: 5 blynedd
Côd UCAS: 252F

Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth gyda Lleoliad Proffesiynol (MMORS)

Hyd: 5 blynedd
Côd UCAS: G901

Mae'r cwrs hwn yn cynnig sylfaen gref yn syniadaeth a thechnegau ystadegaeth modern ac ymchwil weithredol.

Mae ymchwil weithredol, neu wyddor rheolaeth, yn defnyddio technegau ystadegol a dadansoddol uwch i helpu sefydliadau ac unigolion i wneud penderfyniadau'n effeithiol.

Wrth weithio yn y maes hwn, gallech chi fod yn:

- Penderfynu sut i ddyrannu'r gweithlu ac adnoddau
- Dod o hyd i ddilyniannau mewn cadwyn gyflenwi a chaffael
- Datblygu proffiliau cwsmeriaid a segmentau. Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau, y dulliau a'r ffyrdd o feddwl sydd eu hangen arnoch chi i ddod yn ddadansoddwr ystadegol hyderus

Byddwch chi'n gallu mynd i'r afael â phroblemau sefydliadol cymhleth, gan ddefnyddio dulliau fel casglu data, modelu ystadegol, ac efelychu. Mae'r radd BSc mewn Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth hefyd yn cynnig sylfaen dda mewn theori a thechnegau mathemategol cyffredinol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gennych chi'r dewis o newid cyrsiau ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf, felly cewch gadw meddwl agored wrth wneud cais.

Bydd gennych chi gyfle hefyd i gwblhau blwyddyn ar leoliad proffesiynol neu flwyddyn dramor ar ôl eich ail flwyddyn.





Mae'r cwrs gradd MMORS, sy'n bedair blynedd o hyd, yn rhannu'r un sylfaen â gradd BSc mewn Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth, ond yn eich galluogi chi i archwilio'r meysydd sydd o ddiddordeb i chi yn fanylach, drwy fodiwlau opsiynol, modiwlau arbenigol ym mlwyddyn pedwar a thrwy brosiect ymchwil sylweddol.

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol os am gychwyn gyrfa mewn proffesiwn perthnasol ar lefel uchel, ac mae hefyd yn cynnig sylfaen gref i ddilyn gyrfa ym maes ymchwil.

Ym mlwyddyn pedwar, byddwch chi'n cwblhau darn sylweddol o waith prosiect a allai gynnwys:

- Arolwg o faes theori fathemategol sy'n bodoli eisoes nad yw'n cael ei gynnwys mewn modiwlau a addysgir
- Prosiect ymchwil rhagarweiniol
- Datblygu darn o feddalwedd mathemategol

Byddwch chi'n archwilio pwnc ymchwil o'ch dewis ac yn datblygu'r sgiliau proffesiynol y mae cyflogwyr graddedigion yn chwilio amdanyn nhw.

Byddwch chi hefyd yn dangos eich bod ar flaen y gad yn y ddisgyblaeth drwy gwmpasu pynciau uwch ym mhrif feysydd ymchwil yr Ysgol.

Mae'r wybodaeth fwyaf cyfredol ar fodiwlau ar gael ar ein gwefan:
www.caerdydd.ac.uk/courses

Barn un o'n myfyrwyr

Syrthiais i mewn cariad â'r ddinas ar unwaith

Es i i ddiwrnod agored Caerdydd a doeddwn i erioed wedi ymweld â'r ddinas nac yn gwybod llawer amdani, ond roeddwn i mor falch fy mod i wedi mynd! Roeddwn i wrth fy modd â'r ddinas, ac roedd pob un oedd yn helpu ar y diwrnod yn ymddangos yn gyfeillgar iawn. Ar ôl hynny, fe wnes i fwy o ymchwil i Brifysgol Caerdydd, ac fe wnaeth ffactorau fel yr Ysgol Mathemateg, boddhad myfyrwyr a chostau byw fy narbwylllo i fy mod i'n gwneud y dewis cywir.

Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd ymchwil weithredol cyn dod i'r brifysgol

Yn wreiddiol, ymrestrais i ar y cwrs mathemateg arferol gan fy mod i'n mwynhau mathemateg. Yna, newidiais i i'r cwrs mathemateg, ymchwil weithredol ac ystadegaeth ar ddechrau'r ail flwyddyn, gan fod y flwyddyn gyntaf wedi fy helpu i sylweddoli y byddwn i'n hoffi gweithio ym maes ystadegaeth neu wyddoniaeth data. Mae'r cwrs yn ymwneud â defnyddio dulliau mathemategol i optimeiddio systemau, boed yn lif gwaith prosiect neu'n giw. Rydyn ni'n defnyddio ystadegau, algorithmau, ac efelychiad i ddatrays y problemau hyn. Er enghraifft – beth yw'r llwybrau gorau i gyflenwi ffatri er mwyn mwyhau elw a lleihau costau.

Mae mathemateg yn y brifysgol yn llawer mwy haniaethol ac yn gwneud i chi feddwl

Yn y flwyddyn gyntaf yn enwedig, mae'n annhebygol y bydd modd datrys y problemau a roddir i ni ar unwaith - mae'n gofyn am lawer o waith meddwl a chrafu pen, sy'n gwneud y datrysiaid terfynol yn llawer mwy boddhaol. Hefyd, gydag ymchwil weithredol neu ystadegaeth, mae modd gweld ar unwaith ble y byddai'r cynnwys rydych chi'n ei ddysgu yn berthnasol mewn bywyd go iawn.

Byddwn i'n sicr o argymell y cwrs hwn

Os ydych chi'n hoffi her ac eisiau cadw eich opsiynau'n agored o ran llwybr gyrfa, yna byddwn i'n sicr o'i argymell! Mae cymaint o swyddi ar gael sy'n gofyn am bwnc meintiol. Mae astudio mathemateg yn ffordd wych o beidio ag arbenigo'n ormodol yn gynnwys a chael nifer o ddewisiadau posibl o ran gyrfa ar yr un pryd. Dydy mathemateg ddim yn bwnc hawdd, ond mae'n sicr yn rhoi boddhad!



Osy Dallimore, Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth (BSc)

Mathemateg a Cherddoriaeth (cydanrhydedd)

Mathemateg a Cherddoriaeth (BA)

Hyd: 3 blynedd
Côd UCAS: GW13

Mathemateg a Cherddoriaeth gyda Blwyddyn Dramor (BA)

Hyd: 4 blynedd
Côd UCAS: GW31

Dyma gyfle i ddarganfod cysyniadau mathemategol haniaethol, dadlau rhesymegol a rhesymu diddwythol, wrth ddatblygu portffolio o sgiliau sy'n gysylltiedig â gallu cerddorol llythrennog.

Mae'r radd hon yn cynnwys 120 credyd y flwyddyn, wedi eu rhannu'n gyfartal rhwng y ddwy Ysgol.

Byddwch yn datblygu sylfaen gref o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ym mhrif feysydd mathemateg, yn ogystal â magu profiad o ystod o ddisgyblaethau cerddorol, gan gynnwys perfformio, cyfansoddi, cerddoleg hanesyddol a beirniadol, ethnogerddoleg ac acwsteg.

Mae'r radd gydanrhydedd hon gyda rhaglen blwyddyn dramor yn galluogi myfyrwyr i gyfuno astudio Cerddoriaeth a Mathemateg â thrydedd flwyddyn yn astudio yn un o'n prifysgolion partner dramor.

Mae'r wybodaeth fwyaf cyfredol ar fodiwlau ar gael ar ein gwefan:

www.caerdydd.ac.uk/courses



Barn un o'n myfyrwyr

Roedd gen i angerdd am gerddoriaeth a mathemateg

Dewisais i'r cyfuniad hwn gan fy mod i'n methu penderfynu rhwng fy angerdd am gerddoriaeth neu ymchwilio i fyd mathemateg. Rwy' wedi bod â'r un diddordeb am y ddau bwnc erioed, felly roedd y cwrs hwn yn gyfle i fi astudio y ddau ddiddordeb.

Roedd y cwrs hwn yn gydbwysedd perffaith

Y peth gorau am y cwrs oedd y cydbwysedd perffaith rhwng y ddau bwnc. Llwyddais i ffynnu yn yr adran gerddoriaeth, gan dreulio llawer o fy amser yn chwarae mewn ensembles gyda'r ffrindiau cerddorol gwych a wnes i, a hyn oll heb esgeuluso fy astudiaethau mewn mathemateg.

Fy mhrofiad mwyaf cofiadwy oedd y modiwl ensemble yn y drydedd flwyddyn

Roedd yn wych gallu cydweithio gyda fy ffrindiau i rannu llwyddiant. Cawsom ddigon o ryddid, a chawsom gefnogaeth arbennig gan ein tiwtor penodedig. Roedd yr ymarferion yn arwain at y perfformiad terfynol yn ddwys ac yn fythgofiadwy, ac roedd y perfformiad terfynol yn lawer o hwyl.

Mae'r cyfleusterau'r adran gerdd a'r adran fathemateg yn rhagorol

Mae gan yr adran gerddoriaeth nifer sylweddol o bianos ym mhob rhan o'r adeilad, oedd yn bwysig i fi fel pianydd brwd. Mae'r ystafell Mac yn lle gwych i weithio, ond mae hefyd yn ganolbwynt cymdeithasol ardderchog i gwrdd â phobl newydd a chryfhau cysylltiadau â chyfoedion. Mae adeilad Abacws yn cynnig ystafelloedd darlithio a mannau astudio modern.

Byddwn i'n annog ddarpar-fyfyrwyr i astudio'r cyfuniad hwn

Peidiwch â bod ofn y byddwch chi'n cymryd gormod ymlaen; mae'n gyfle i ddarganfod beth rydych chi'n ei fwynhau. Rwy' ar fin dechrau gradd meistr mewn mathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac rwy' wedi cael sicrwydd na fydd treulio hanner fy nghyfnod yn fyfyrwr israddedig yn astudio cerddoriaeth yn fy rhoi i dan anfantais. Mae'r hyblygrwydd wrth ddewis modiwlau yn ei gwneud hi'n hawdd i chi deilwra eich profiad a'ch llwybr ar eich gradd i ddarganfod eich diddordebau.



Augustus Tranter, Mathemateg a Cherddoriaeth (BA)



Gan feddwl am y dyfodol... beth allwch chi ei wneud gyda gradd mewn mathemateg?

Gall gradd mewn Mathemateg agor drysau i ystod eang o feysydd proffesiynol.

Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau meddwl yn rhesymegol a'r dulliau arloesol o ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau y gallir eu dysgu drwy ddilyn cwrs gradd Mathemateg. Maen nhw hefyd yn deall bod y nodweddion hyn yn ffurfio graddedigion deallus a hyblyg.

Ar ôl graddio, efallai y byddwch chi'n dewis mynd ar drywydd gyrfa yn addysgu gwybodaeth fathemategol ddamcaniaethol i eraill. Gall cymhwyster mewn mathemateg hefyd fod yn fan cychwyn da i ddilyn gyrfa yn y sector ariannol, mewn ymchwil gymdeithasol ac astudiaethau gwyddonol. Gallwch hefyd ddefnyddio'r sgiliau cyfrifiadurol a geir wrth wneud gradd mewn mathemateg i fynd yn syth i yrfa ym maes TG neu ddatblygu meddalwedd.

Mae myfyrwyr mathemateg yn arbennig o debygol o fod yn addas ar gyfer y swyddi canlynol:

- Ymgynghorydd acwstig
- Dadansoddwr actiwaraid
- Actiwari
- Cyfrifydd siartredig
- Dadansoddwr data
- Gwyddonydd data
- Dadansoddwr buddsoddiadau
- Ymchwilydd
- Athro ysgol uwchradd
- Datblygwr meddalwedd
- Ystadegydd

Astudiaethau pellach

Fel arall, efallai y byddwch chi'n dewis defnyddio eich gradd fel cam cyntaf i ymgymryd ag astudiaethau pellach. Mae llawer o raddedigion yn mynd ymlaen i gwblhau cwrs hyfforddiant athrawon ôl-raddedig neu'n astudio ar gyfer MSc neu PhD. Mae astudio pellach yn hanfodol ar gyfer gradd ymchwil ac mae gradd israddedig mewn mathemateg yn sylfaen wych ar gyfer astudio pellach mewn ystod eang o bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg).





Dewch i gwrrd â Megan North

Mae ganddi radd mewn Mathemateg, Ymchwil Weithredol ac Ystadegaeth (BSc). Mae hi bellach yn gweithio fel ymchwilydd gweithredol yn y Gwasanaeth Sifil.

Ers gadael Prifysgol Caerdydd yn 2021, rwy' wedi mwynhau tair blynedd yn y Gwasanaeth Sifil

Rwy'n gweithio fel ymchwilydd gweithredol, yn rhan o wasanaeth Ymchwil Weithredol y llywodraeth. Dechreuais yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle treuliais i 12 mis yn dysgu a datblygu fy sgiliau rhaglennu R, yn ogystal â chwblhau prosiectau dadansodol amrywiol at ddefnydd y tim, rhanddeiliaid, ac yn achlysurol, at ddefnydd gweinidogion. Yna, llwyddais i gael dyrchafiad a symudais i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae llawer rwy'n ei fwynhau am fy rôl

Mae'n faes gwaith sy'n newid ac yn datblygu o hyd, felly dydw i byth yn diflasu! Mae wedi rhoi cyfleoedd i fi gael datblygu fy sgiliau codio, drwy waith dadansoddi mwy cyffredinol, delweddu a modelu. Wrth weithio yn y Gwasanaeth Sifil, mae hefyd yn ddiddorol cael cyfrannu at waith sy'n cael ei werthfawrogi gan weinidogion, o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw am y sefyllfaoedd diweddaraf yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol a defnyddio data i gynnig tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau.



Dysgwch fwy am dri phrif brofiad Megan yn ei hastudiaethau

Y peth gwych am fathemateg yw bod y cyfleoedd gyrfa yn amrywiol ac yn ddiidwedd

Dechreuais fy ngradd gan feddwl y byddwn i'n dilyn llwybr mewn cyfrifeg. Fodd bynnag, sylweddolais i'n gyflym fy mod i'n mwynhau ystadegaeth ac ymchwil weithredol, ac fe wnes i ddarganfod llwybr cwbl newydd yn syth. Yn ogystal â hyn, er bod llawer o fy ffrindiau wedi astudio rhai o'r un modiwlau ag y gwnes i, maen nhw i gyd mewn gyrfaedd gwahanol – aeth rhai ymlaen i astudio ymhellach, aeth rhai i'r '4 Mawr', ac ymunodd ambell un â fi yn y Gwasanaeth Sifil.

Ces i amser gwych ym Mhrifysgol Caerdydd – byddwn i'n ei argymhell

Roeddwn i wrth fy modd â'r ddinas, pa mor agos oedd y brifysgol i ganol y ddinas a pha mor integredig roeddwn i'n teimlo fel myfyriwr. Roedd popeth yn hawdd ei gyrraedd ac mae rhywbeth y gallwch chi gymryd rhan ynddo yn digwydd bob amser!

O ran dewis Prifysgol Caerdydd, rwy'n meddwl bod y darlithwyr cefnogol yn wych, oherwydd heb eu cefnogaeth nhw, fyddwn i ddim wedi gadael gyda'r radd a wnes i. Yn ogystal â hynny, roedd y cyfleoedd yn hollbwysig yn fy mhenderfyniad a gyda blynyddoedd ar leoliad, astudio dramor, sgysiau gan fyfyrwyr PhD, cyflwyniadau gan ddarpar gyflogwyr a mwy. Rwy' wir yn teimlo fy mod i wedi cael mwy nag y gallwn i fod wedi gofyn amdano.

Gwneud cais



I gael eich ystyried ar gyfer unrhyw un o'n cyrsiau israddedig, gwnewch gais trwy UCAS.

Gofynion nodweddiadol o ran mynediad

Canllaw yn unig yw'r gofynion nodweddiadol hyn. Ewch i'n gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf:

www.caerdydd.ac.uk/ugcourses

Mae'r rhan fwyaf o'n cynigion yn amodol ar ganlyniadau Safon Uwch.

Fel arfer, y cynnig Lefel A ar gyfer rhaglenni gradd Mathemateg Anrhydedd Sengl yw AAA / A*AB gyda gradd A mewn mathemateg.

Nid yw cymwysterau Safon Uwch mewn Astudiaethau Cyffredinol na Meddwl yn Gritigol yn cyfrif tuag at y cynnig hwn.

Nid yw'n ofynnol i chi fod wedi astudio mathemateg bellach, ac nid yw chwaith o bwys pa fersiwn o Safon Uwch Mathemateg rydych wedi'i astudio, cyn belled â'i bod yn cynnwys deunydd creiddiol mewn Mathemateg Bur.

Fel arfer, mae'n rhaid i chi gael TGAU Saesneg gradd C o leiaf, neu gymhwyster cyfatebol.


Caiff Bagloriaeth Cymru ei derbyn fel un o'r tair gradd Safon Uwch.

Y cynnig Bagloriaeth Rhyngwladol cyfatebol yw 36 pwynt, gydag o leiaf 6 mewn Mathemateg ar lefel uwch.

Fel arfer, mae angen cymhwyster Saesneg sy'n o leiaf gradd C TGAU neu gyfwerth.

Rydyn ni hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr aeddfed a gan fyfyrwyr sy'n meddu ar gymwysterau cyfatebol, fel BTEC, GNVQ, ACCESS, ac ati.

Mae croeso i fyfyrwyr tramor hefyd, a byddwn yn ystyried eich cymwysterau fesul cais unigol.



Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2025 ac mae'n gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mehefin 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: www.caerdydd.ac.uk cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma.

Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llyfryn hwn a'r wefan, cynnwys y wefan fydd yn cael blaenoriaeth ac yn nodi'r sail rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o fffynonellau cynaliadwy, gan ddefnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prospectws a'r broses weithgynhyrchu wedi'u hardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC®).

Mae'r argraffwyr hefyd wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.




Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestrdedig, rhif 1136855

Gellir trefnu i'r prospectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts: Ffôn: 029 2087 4455 E-bost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

Sut i ddod o hyd i ni

Allwedd

-  Yr Ysgol Mathemateg
-  Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
-  Preswylfeydd myfyrwyr

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

I gael gwybod mwy am yr
Ysgol Mathemateg, ewch
i'n gwefan:



Cysylltu â ni

Yr Ysgol Mathemateg
Abacws
Prifysgol Caerdydd
Ffordd Senghennydd
Caerdydd CF24 4AX

E-bost: [mathematics@
caerdydd.ac.uk](mailto:mathematics@caerdydd.ac.uk)

Ffôn: 029 2087 4811

Cadwch mewn cysylltiad

 [cardiffuniug](#)

 [@MathsCU](#)

Bywyd myfyrwyr

Oes gennych chi gwestiynau am
fywyd myfyrwyr?
Cewch atebion yma:

[https://blogs.cardiff.ac.uk/
insiders/cy/](https://blogs.cardiff.ac.uk/insiders/cy/)

Eisiau gwybod mwy am fywyd ym
Mhrifysgol Caerdydd? Mae myfyrwyr
sy'n flogwyr yn cofnodi eu profiadau
ac yn hapus i ateb eich cwestiynau.

Mae'r rhain yn fyfyrwyr go iawn sy'n
astudio amrywiaeth o gyrsgiau. Maen
nhw yma i ateb unrhyw gwestiynau
sydd gennych chi am fywyd ym
Mhrifysgol Caerdydd. Sut olwg sydd
ar ddiwrnod arferol? Pa glybiau a
chymdeithasau sydd i'w cael yma?
Ydy sin gerddoriaeth Caerdydd yn
dda? Gall fod bron yn unrhyw beth.